County Hall
Cardiff
CF10 4UW
Tel: (029) 2087 2000

Neuadd y Sir
Caerdydd
CF10 4UW
Ffôn: (029) 2087 2000

# AGENDA

| | |
|---|---|
| **Pwyllgor** | PWYLLGOR CRAFFU GWASANAETHAU OEDOLION A CHYMUNEDOL |
| **Dyddiad ac amser y cyfarfod** | DYDD MERCHER, 5 MEHEFIN 2019, 4.30 PM |
| **Lleoliad** | YSTAFELL BWYLLGORA 4 - NEUADD Y SIR |
| **Aelodaeth** | Cynghorydd Jenkins (Cadeirydd)<br>Y Cynghorwyr McGarry, Ahmed, Carter, Goddard, Naughton, Lent a/ac Gibson |

Tua Amser.

**1 Penodi Cadeirydd ac Aelodau'r Pwyllgor** 4.30 pm

Penodwyd y Cynghorydd Shaun Jenkins yn Gadeirydd y Pwyllgor hwn a'r canlynol yn Aelodau'r pwyllgor yng nghyfarfod y Cyngor ar 23 Mai 2019:

Y Cynghorwyr Ali Ahmed, Carter, Gibson, Goddard, Lent, McGarry a Naughton (1 swydd wag)

**2 Cylch Gorchwyl**

Craffu ar, mesur a hybu gwelliant ym mherfformiad y Cyngor wrth ddarparu gwasanaethau a chydymffurfio â pholisïau, nodau ac amcanion y Cyngor ym maes gwasanaethau cymunedol ac oedolion, gan gynnwys:

- Tai Cyhoeddus a Phreifat
- Grant Cyfleusterau i'r Anabl
- Diogelwch Cymunedol
- Adnewyddu Cymdogaethau a Chymunedau Nesaf
- Cyngor a Budd-daliadau
- Amddiffyn Defnyddwyr
- Strategaeth Pobl Hŷn
- Gofal Cymdeithasol i Oedolion

- Gwasanaethau Gofal Cymunedol
- Iechyd Meddwl ac Anableddau Corfforol
- Strategaeth Comisiynu
- Partneriaeth Iechyd

Asesu effaith ein partneriaethau â sefydliadau allanol, adnoddau a'r gwasanaethau y maent yn eu darparu, yn cynnwys Llywodraeth Cymru, gwasanaethau llywodraeth leol ar y cyd, Cyrff Cyhoeddus dan Nawdd Llywodraeth Cymru a chyrff lled-adrannol anllywodraethol a gwasanaethau iechyd ar effeithiolrwydd gwasanaethau'r Cyngor.

Adrodd y canfyddiadau yn y cyfarfod Cabinet neu Gyngor perthnasol a rhoi argymhellion ynghylch mesurau a all wella perfformiad y Cyngor a'i wasanaethau yn y maes.

Gweithredu fel Pwyllgor Trosedd ac Anrhefn y Cyngor yn ôl Deddf yr Heddlu a Chyfiawnder 2006 ac unrhyw ailddeddfiad neu ddiwygiad ohoni; ac fel dirprwy i'r Cyngor, arfer ei bwerau a'i swyddogaethau a ganiateir dan y Ddeddf.

**3 Ymddiheuriadau am Absenoldeb**

Derbyn ymddiheuriadau am absenoldeb.

**4 Datgan Buddiannau**

Dylid gwneud hyn ar ddechrau'r eitem agenda dan sylw, yn unol â'r Cod Ymddygiad Aelodau.

**5 Cofnodion** *(Tudalennau 5 - 12)*

Cymeradwyo cofnodion cyfarfod Pwyllgor Craffu'r Gwasanaethau Cymunedol ac Oedolion a gynhaliwyd ar 1 Mai 2019 fel gwir gofnod.

**6 Sut mae'r Cyngor yn Ymgysylltu â Chymdeithasau Tai** *(Tudalennau 13 - 32)* 4.35 pm

Rhoi diweddariad i'r Aelodau ar sut mae'r Cyngor yn ymgysylltu â Chymdeithasau Tai ar hyn o bryd.

**7 Adroddiad Perfformiad Chwarter 4 Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion** *(Tudalennau 33 - 76)* 6.00 pm

Monitro perfformiad chwarter 4 Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion y Cyngor.

**8** **Y Ffordd Ymlaen** 6.35 pm

Adolygu'r dystiolaeth a'r wybodaeth a gasglwyd wrth ystyried pob eitem agenda, cytuno ar sylwadau, argraffiadau a phryderon yr Aelodau i'w cyfleu i'r Aelod Cabinet perthnasol gan y Cadeirydd, a nodi eitemau i'w cynnwys ym Mlaenraglen Waith y Pwyllgor.

**9** **Datganiad Gohebiaeth** *(Tudalennau 77 - 80)* 7.00 pm

Aelodau i ystyried gohebiaeth wedi ei hanfon a'i derbyn ers cyfarfod diwethaf y Pwyllgor a derbyn y wybodaeth ddiweddaraf ar eitemau sy'n weddill.

**10** **Trefnu Rhaglen Waith** *(Tudalennau 81 - 238)* 7.05 pm

Aelodau i gadarnhau eitemau agenda ar gyfer dau gyfarfod nesaf y Pwyllgor. Trafod y dull o ddatblygu rhaglen waith y Pwyllgor ar gyfer 2019/20 a'r amserlen arfaethedig ar gyfer dyddiadau cyfarfodydd rhwng mis Gorffennaf 2019 a mis Gorffennaf 2020.

Aelodau i dderbyn diweddariad ar ymchwiliad Gorchwyl a Gorffen ac i gadarnhau neu ddiwygio Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor ar gyfer 2018/19 ac adroddiad drafft ar ôl Cyfarfod Pwyllgor y Porth Person Sengl ar 21 Ionawr 2019.

**11** **Eitemau Brys (os oes rhai)**

**12** **Dyddiad y Cyfarfod Nesaf**

Disgwylir i gyfarfod nesaf Pwyllgor Craffu'r Gwasanaethau Cymunedol ac Oedolion ddigwydd ar 3 Gorffennaf am 4.30pm yn Ystafell Bwyllgor 4, Neuadd y Sir, Caerdydd.

**Davina Fiore**
**Cyfarwyddwr Llywodraethu a Gwasanaethau Cyfreithiol**
Dyddiad: Dydd Iau, 30 Mai 2019
Cyswllt: Andrea Redmond, 02920 872434, a.redmond@caerdydd.gov.uk

**GWE-DARLLEDU**

Caiff y cyfarfod hwn ei ffilmio i'w ddarlledu'n fyw a/neu yn olynol trwy wefan y Cyngor. Caiff yr holl gyfarfod ei ffilmio, heblaw am eitemau eithriedig neu gyfrinachol, a bydd y ffilm ar gael ar y wefan am 12 mis. Cedwir copi o'r recordiad yn unol â pholisi cadw data'r Cyngor.

Gall aelodau'r cyhoedd hefyd ffilmio neu recordio'r cyfarfod hwn

Ar ddechrau'r cyfarfod, bydd y Cadeirydd yn cadarnhau a gaiff y cyfarfod cyfan neu ran ohono ei ffilmio. Fel rheol, ni chaiff ardaloedd y cyhoedd eu ffilmio. Fodd bynnag, wrth fynd i'r ystafell gyfarfod a defnyddio'r ardal gyhoeddus, mae aelodau'r cyhoedd yn cydsynio i gael eu ffilmio ac y defnyddir y lluniau a recordiadau sain hynny o bosibl at ddibenion gwe-ddarlledu a/neu hyfforddi.

Os oes gennych gwestiynau ynghylch gwe-ddarlledu cyfarfodydd, cysylltwch â'r Gwasanaethau Pwyllgorau ac Aelodau ar 02920 872020 neu e-bost Gwasanethau Democrataidd